Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl452

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Rhodd i Noddfa Ffoaduriaid y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth 2026**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Ymhellach i'r rhodd a roddwyd gan y Comisiynydd yn 2024 (gweler cofnod penderfyniad DLl333), gwnaed cais arall am gymorth yn 2026.

Mae Noddfa Ffoaduriaid y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth yn cynnal Diwrnod Croeso ddydd Sul 17 Mai 2026 yn Nhalgarth, Powys.

Cyflwynir y diwrnod croeso gan gyfres o grwpiau sy'n gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys Grŵp Adfywio Talgarth a'r Cylch, Canolfan Ymwelwyr Talgarth, Ffrindiau Llyfrgell Talgarth, a staff a rhieni Ysgol y Mynydd Du.

Gwahoddir ffoaduriaid sy'n byw yn ardal Dyfed-Powys a lleoliadau trefol ehangach ledled Cymru i'r digwyddiad hwn, a fydd yn rhoi mewnwelediad i gymunedau gwledig Dyfed-Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'r digwyddiad yn anelu i estyn croeso cynnes ar adeg pan mae cydlyniant cymunedol a materion o gwmpas noddfa'n destun craffu dwys.

Mae'r digwyddiad yn cefnogi blaenoriaeth y Cynllun Heddlu a Throseddu o Atal Niwed.

**Argymhelliad:**
Rhoi £250 o'r Gronfa Gwerthu Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo i gefnogi diwrnod croeso Noddfa Ffoaduriaid y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth ar 17 Mai 2026.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 22/04/2026**